## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (DINAS MAWDDWY, GWYNEDD) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIAD TRAFFIG DROS DRO) 2023

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gallu cynnal digwyddiad beicio mynydd Red Bull Hardline ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Ninas Mawddwy, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Creu clirffordd ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Bydd esemptiadau yn gymwys i gerbydau a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y digwyddiad.

ii. Gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y cilfannau sy'n gyfagos i'r darn o gefnffordd yr A470 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

iii. Gosod terfyn cyflymder 40 mya ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

iv. Gwahardd goddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 10 Gorffennaf 2023 a bydd yn para am 8 niwrnod ar y mwyaf.

Disgwylir y bydd y glirffordd, y terfyn cyflymder 40 mya a'r gwaharddiad ar oddiweddyd dros dro yn weithredol o 07:00 o'r gloch ar 10 Gorffennaf 2023 hyd 18:00 o'r gloch ar 17 Gorffennaf 2023. Disgwylir y bydd y cilfannau wedi eu cau o 00:01 o'r gloch ar 14 Gorffennaf 2023 hyd 23:59 o'r gloch ar 16 Gorffennaf 2023.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (DINAS MAWDDWY, GWYNEDD) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTION) ORDER 2023

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to enable the Red Bull Hardline mountain biking event to be held on or near the A470 trunk road at Dinas Mawddwy, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Create a clearway on the length of the trunk road described in the Schedule to this Notice. Exemptions will apply for vehicles used by the emergency services or for the event.

ii. Prohibit all vehicles from proceeding in the lay-bys adjacent to the length of the A470 trunk road described in the Schedule to this Notice.

iii. Impose a 40 mph speed limit on the length of the trunk road described in the Schedule to this Notice.

iv. Prohibit overtaking on the length of the trunk road described in the Schedule to this Notice.

The Order comes into force on 10 July 2023 and has a maximum duration of 8 days.

The temporary clearway, 40 mph speed limit and no overtaking are expected to operate from 07:00 hours on 10 July 2023 until 18:00 hours on 17 July 2023. The lay-bys are expected to be closed from 00:01 hours on 14 July 2023 until 23:59 hours on 16 July 2023.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A470 yn Ninas Mawddwy, Gwynedd, sy'n ymestyn o bwynt 1 fetr i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd fynediad i Benantigi Uchaf hyd at bwynt 1 fetr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd Gilcwm.

## SCHEDULE

The length of the A470 trunk road at Dinas Mawddwy, Gwynedd that extends from a point 1 metre east of the centre-point of its junction with the access road to Penantigi Uchaf to a point 1 metre west of the centre-point of its junction with Ffordd Gilcwm.